# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaeth Democratiaeth**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**PWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG**

Dyddiad ac Amser

**10.00 y.b., DYDD LLUN, 7FED MAWRTH, 2016**

Lleoliad

**Siambr Hywel Dda - Swyddfeydd y Cyngor**

Pwynt Cyswllt

**Lowri Haf Evans**

**01286 679 878**

**lowrihafevans@gwynedd.gov.uk**

(Dosbarthwyd Mawrth 1af 2016)

## PWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG

### AELODAETH (15)

## Plaid Cymru (8)

Y Cynghorwyr

Annwen Daniels
Christopher Hughes
W. Tudor Owen
R. H. Wyn Williams
Annwen Hughes
John Wyn Williams
Ann Williams
Sedd wag

## Annibynnol (5)

Y Cynghorwyr

John Brynmor Hughes
Angela Russell
Louise Hughes
Eryl Jones-Williams
Elfed Williams

## Llais Gwynedd (2)

Y Cynghorwyr

I. Dilwyn Lloyd
Peter Read

## Aelodau Ex-officio

Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor

# R H A G L E N

## 1. YMDDIHEURIADAU

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Derbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol

## 3. MATERION BRYS

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

## 4. COFNODION 1 - 3

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion cyfarfod o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd 1.12.15 fel rhai cywir .

## 5. COFNODION IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU 4 - 23

Cyflwyno, er gwybodaeth, cofnodion cyfarfod o'r Is-bwyllgor Trwyddedu Canolog a gynhaliwyd ar y dyddiad canlynol:-

09.10.15
24.11.15
21.12.15
12.01.16
29.01.16

## 6. POLISI GAMBLO CYNGOR GWYNEDD I ddilyn

Ystyried adroddiad y Rheolwr Trwyddedu

## 7. YMARFERIAD FFORDD GWYNEDD GYDA THRWYDDEDU

Adroddiad ar lafar gan Uwch Reolwr Cynllunio ac Amgylchedd

## PWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG, 01.12.15

**Yn bresennol**: Y Cynghorwyr, Annwen Daniels, John Brynmor Hughes, Tudor Owen, Eryl Jones-Williams, Angela Russell, Ann Williams, Elfed W. Williams ac Wyn Williams

**Hefyd yn Bresennol:** Gareth Jones (Uwch Reolwr Cynllunio ac Amgylchedd ), Sheryl Le Bon (Rheolwr Trwyddedu), Geraint B Edwards (Cyfreithiwr) a Lowri Haf Evans (Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu)

### 1. CROESO AC YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr, Craig ab Iago, Louise Hughes, Dilwyn Lloyd, a Peter Read.

### 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

### 3. MATERION BRYS

Dim i'w nodi

### 4. COFNODION CYFARFOD DIWETHAF

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod o'r pwyllgor a gynhaliwyd ar 3ydd o Dachwedd 2015 fel rhai cywir.

### 5. CANLYNIAD YR YMGYNGHORIAD STATUDOL AR DDATGANIAD O BOLISI DRAFFT – DEDDF TRWYDDEDU 2003

Cyflwynwyd adroddiad gan y Rheolwr Trwyddedu yn gosod gwybodaeth gefndirol i'r ymgynghoriad statudol cyhoeddus a gynhaliwyd rhwng y 4ydd o Dachwedd a'r 24ain o Dachwedd. Cyfeiriwyd at daflen gyswllt a oedd yn crynhoi manylion yr ymgynghoriad.

Nodwyd bod yr Uned Trwyddedu wedi derbyn un ymateb i'r ymgynghoriad oddi wrth Uwch Swyddog Polisi ac Ymchwil 'Alcohol Concern Cymru', Caerdydd. Ategwyd bod y sylwadau a dderbyniwyd yn ddefnyddiol iawn a gofynnwyd i'r Pwyllgor eu hystyried.

Y sylw cyntaf oedd bod cyfle i'r awdurdod nodi bod Iechyd Cyhoeddus, er nad ydyw yn un o'r amcanion trwyddedu, yn bwysig i'r awdurdod ac awgrymwyd y dylid addasu geiriad y polisi er mwyn annog ymgeiswyr i ddangos yn eu hatodlen weithredu sut y byddent yn cyfrannu at nôd y Cyngor o hybu ffordd iachach o fyw.

Mewn ymateb i'r sylw, mynegodd yr aelodau bod amlygu pryderon fel hyn yn galonogol ac felly derbyniwyd yr angen i addasu geiriad 2.14 o'r polisi.

Yr ail sylw oedd cynnwys atodiad sydd yn rhestru amodau cryf y gellid eu gosod ar drwyddedau er mwyn rhwystro hyrwyddiadau anghyfrifol ac arddangosfeydd o alcohol. Nodwyd bod geiriad y polisi yn dderbyniol ac yn unol ar Ddeddf, ac ni ddylai Awdurdod Trwyddedu ddefnyddio amodau safonol.

Y trydydd sylw a wnaed oedd cais i gynnwys mwy o ystadegau yn y polisi, ond amlygwyd bod yr atodiad perthnasol wedi ei baratoi ar y cyd gyda Chynghorau Lleol eraill ar draws Gogledd Cymru ac felly penderfynwyd peidio addasu'r geiriad.

Ategwyd bod ymateb wedi ei anfon at 'Alcohol Concern Cymru' yn cydnabod eu sylwadau ac y bydd ymateb pellach o'r penderfyniad yn cael ei anfon drwy lythyr at yr ymatebydd.

**PENDERFYNWYD**

**a) DERBYN ADDASIAD I BARAGRAFF 2.14 O'R DATGANIAD YN UNOL Â'R SYLWADAU A DDERBYNIWYD**

**b) CYMERADWYO Y DATGANIAD O BOLISI TRWYDDEDU AR GYFER YSTYRIAETH Y CYNGOR LLAWN AR Y 10 FED O RAGFYR 2015**

**6. ADDASIAD I DDEDDF TRWYDDEDU 2003 – GORCHYMYN DIWYGIO DEDDFWRIAETHOL (TRWYDDEDU ADLONIANT) 2014**

a) Cafwyd diweddariad ar lafar gan y Rheolwr Trwyddedu yng nghyd-destun newidiadau i weithgareddau a ystyrir fel adloniant wedi ei reoleiddio. Mewn cyfarfod o'r Pwyllgor Canolog a gynhaliwyd ar y 9fed o Fawrth 2015, tynnwyd sylw penodol at ddiwygiad,

*'Nid oes angen trwydded rhwng 8am ac 11pm ar unrhyw ddiwrnod, heb unrhyw gyfyngiad ar nifer y gynulleidfa i unrhyw adloniant sy'n digwydd ar eiddo'r awdurdod lleol os yw'n adloniant sy'n cael ei ddarparu gan neu ar ran yr awdurdod lleol'*

Atgoffwyd yr aelodau o'u penderfyniad, i'r Adran Trwyddedu gysylltu gyda'r Adran Addysg i amlygu'r newidiadau ynghyd a'r amodau (tu allan i oriau yn unig) gan fod potensial yma i arbed £16k y flwyddyn mewn taliadau trwyddedau (gan fod pob trwydded ysgol yn 24awr, a bod yr Adran Addysg yn berchen pob trwydded).

Mewn ymateb i'r penderfyniad hynny, nodwyd bod yr Adran Trwyddedu wedi llythyru pob ysgol yng Ngwynedd ac wedi derbyn 10 ymateb hyd yma. Ategwyd y byddai'r Adran Trwyddedu yn parhau i atgoffa eraill i ymateb.

b) Mewn cyfarfod o’r Pwyllgor Trwyddedu Canolog a gynhaliwyd ar yr 22ain o Fehefin 2015, amlygwyd bod y Ddeddf Dadreoli 2015 yn ymdrin ag amrediad eang o fesurau a oedd yn cynnwys effeithiau ar 'alcohol, chwaraeon ac adloniant' ac yn benodol Deddf Trwyddedu 2003. Nodwyd y byddai’r newidiadau yn cael eu cyflwyno yn raddol.

Un o’r newidiadau diweddar (dod i rym 1.10.15) yw rhoi pwerau i’r Uned Trwyddedu eithrio cyflenwadau bwyd poeth gyda chanllawiau priodol ar gyfer gweithredu hyn. Nodwyd hefyd y bydd Awdurdod Lleol a’r gallu i osod ardal benodol / neu o ddisgrifiad dynodedig e.e., gorsafoedd petrol, eiddo Awdurdod Lleol llai na 500, ysgolion llai na 500, ysbytai, neuaddau , eglwysi, eiddo sydd yn ddiwygiedig i werthu alcohol. Ategwyd, petai’r Cyngor yn penderfynu defnyddi’r pwerau hyn, buasai rhaid dilyn proses ymgynghorol er mwyn rhannu gwybodaeth o ran gosod ardaloedd dynodedig. Nodwyd, nad oedd y Cyngor wedi gosod ardaloedd dynodedig ac roedd hyn wedi ei nodi yn y polisi diwygiedig.

Mewn ymateb i’r sylw, nodwyd bod hwn yn ddarn o waith sylweddol a bod angen cynnal trafodaethau gyda chynghorau ar draws Gogledd Cymru ac yn Genedlaethol i weld datblygiadau cyn symud ymlaen.

**PENDERFYNWYD derbyn y wybodaeth a gwnaed cais i’r Uned Trwyddedu roi diweddariad ar bob diwygiad / ymgynghoriad fel y byddant yn dod i rym**

Dechreuodd y cyfarfod am 2:00pm a daeth i ben am 3:00pm

# IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG DYDD GWENER, 9 HYDREF 2015

**Yn bresennol**: Cyng. Eryl Jones Williams, Cyng. Tudor Owen, Cyng. Annwen Hughes

**Hefyd yn bresennol:** Geraint Brython Edwards (Cyfreithiwr), Heilyn Williams (Swyddog Trwyddedu) a Lowri H Evans (Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu)

**1. CROESO**

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd, y Cynghorydd Eryl Jones Williams. Cyflwynwyd y panel ar swyddogion i bawb oedd yn bresennol. Cyhoeddwyd bod gan bawb hyd at 10 munud i rannu eu sylwadau.

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Dim i'w nodi

**3. MATERION BRYS**

Dim i'w nodi

**4. CAIS AM AMRYWIAD TRWYDDED EIDDO**

**THE VICTORIA-N-SLIPWAY, MARINE PARADE, TYWYN**

**Ar ran yr eiddo:** Mr Mark Greaves (ymgeisydd), Ms Karen L Darby (asiant)

**Aelod Lleol:** Cyng. Mike Stevens

**Eraill a fynychwyd:** Mr Robert Wynne (Preswylydd Lleol)

**Ymddiheuriadau:** R Price, S Pickering a Mr Oliver (Preswylwyr Lleol), Sheryl Le Bon Jones (Rheolwr Trwyddedu), Mr J Hughes (Gwasanaeth Tân), Mr Ian Williams (Heddlu Gogledd Cymru), Cynghorydd Anne Ll Jones (Aelod Lleol) a Cynghorydd Angela Russell

**Adroddiad ac argymhelliad yr Adain Trwyddedu.**

a) Cyflwynwyd adroddiad y Rheolwr Trwyddedu yn manylu ar gais Mr Mark Andrew Greaves ar ran cwmni Victoria-N-Slipway Pub am drwydded eiddo o'r newydd ar gyfer The Victoria-N-Slipway, Marine Parade, Tywyn. Cais ydoedd ar gyfer eiddo newydd fydd yn cynnwys lle bwyta dros ddau lawr ar gyfer 150 o bobl gyda balconi allanol a gardd gwrw i'r ochr. Nodwyd manylion am yr oriau cyfredol a'r oriau arfaethedig yn yr adroddiad.

   Nodwyd bod yr ymgeisydd wedi cynnwys camau priodol i hyrwyddo'r pedwar amcan trwyddedu fel rhan o'r cais.

   Yn dilyn cyfnod ymgynghori, nodwyd nad oedd Heddlu Gogledd Cymru yn gwrthwynebu'r cais ond yn dymuno bod teledu cylch cyfyng (TCC) yn cael ei osod ar yr eiddo yn destun i amodau penodol TCC. Derbyniwyd saith gwrthwynebiad i'r cais oddi wrth breswylwyr lleol yn seiliedig ar yr amcanion

trwyddedu o Atal Trosedd ac Anrhefn ac Atal Niwsans Cyhoeddus. Roedd eu pryderon yn ymwneud ac oriau agor hwyr, agosatrwydd yr eiddo i gartrefi preswylwyr, fydd o ganlyniad yn debygol o greu niwsans cyhoeddus a diffyg cyfleusterau parcio.

b) Wrth ystyried y cais dilynwyd y drefn ganlynol-:

- Rhoddwyd cyfle i aelodau'r Is-bwyllgor a'r ymgeisydd ofyn cwestiynau i'r Rheolwr Trwyddedu.
- Gwahoddwyd yr ymgeisydd i ymhelaethu ar y cais
- Rhoddwyd cyfle i'r ymgynghorai gyflwyno eu sylwadau
- Gwahoddwyd deilydd y drwydded neu ei gynrychiolydd i ymateb i'r sylwadau
- Rhoddwyd cyfle i aelodau'r Is-bwyllgor ofyn cwestiynau i ddeilydd y drwydded.
- Rhoddwyd cyfle i aelodau'r Is-bwyllgor ofyn cwestiynau i'r ymgynghorai.

c) Wrth ymhelaethu ar y cais nododd asiant ar ran yr ymgeisydd ei bod yn hapus gyda'r hyn oedd wedi ei gyflwyno a chadarnhaodd bod yr ymgeisydd, yn dilyn trafodaethau gyda Heddlu Gogledd Cymru wedi cytuno i amodau TCC. Sylwadau ychwanegol o fwriad yr ymgeisydd;

- Cynnal enw da, yn lleol gyda gwasanaeth o ansawdd da.
- Ni fydd aflonyddwch i drigolion lleol. Yr adeilad wedi ei lunio gyda phreswylwyr mewn golwg. Nid oedd unrhyw fwriad i greu gofid i breswylwyr lleol, ond i gydweithio.
- Nid yw'r cynlluniau wedi eu haddasu - bwyty yw'r bwriad ac nid clwb nos.
- Deunyddiau atal/lleihau sŵn i'w defnyddio.
- Hyblygrwydd gydag amseroedd agor yn ddibynnol ar ddigwyddiadau ac ar y busnes. Yr oriau yn gyfatebol i oriau tafarndai cyfagos.
- Yr eiddo mewn lleoliad sydd yn boblogaidd gyda thwristiaid. Bydd hefyd yn darparu gwasanaeth sydd yn ymateb i'r galw yn lleol ac yn creu swyddi yn lleol.
- Bydd yr ardal yn debygol o gael ei phlismona yn aml oherwydd cynnydd mewn gweithgarwch.
- Nid oes prinder mannau parcio yn Nhywyn - digon o lefydd ar lân y môr.
- Ni fydd mynediad i unigolion o dan ddylanwad alcohol ar ôl 11pm.
- Bydd staff yn derbyn hyfforddiant priodol a'r sut i ddelio gydag ymddygiad.
- Angen i Tywyn fod yn ardal sydd yn ffynnu ac yn llwyddo
- Sicrhau y bydd y pedwar amcan trwyddedu yn cael blaenoriaeth

ch) Mewn ymateb i'r sylw ynglŷn â phlismona, nododd yr ymgeisydd, er iddo awgrymu mwy o blismona nid oedd hyn wedi ei gadarnhau. Er hynny, mynegodd bod trafodaethau wedi eu cynnal gyda Mr Ian Williams (Cydlynydd Trwyddedu Heddlu Gogledd Cymru) a'i fod yn fodlon gyda sefyllfa diogelwch yr eiddo. Ymhelaethodd gan nodi ei fod wedi cytuno i'r amodau TCC ac y bydd pobl ar y drysau yn ystod digwyddiadau. Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â phryd fydda'r busnes yn agor - nododd yr ymgeisydd 'mor fuan â phosib'.

d) Mewn ymateb i'r cais nododd Preswylydd Lleol a oedd yn gwrthwynebu'r cais, y sylwadau canlynol:

- Nad oedd ganddo anghydfod gyda'r datblygiad – braf oedd gweld adeilad trawiadol yn y dref yn cael ei ddatblygu
- Pryder ganddo yntau a phedwar o'i denantiaid o sŵn fydd yn cario yn ystod y nos.
- Gwrthod y drwydded ar sail oriau hwyr yn unig. Cynnig y dylid lleihau oriau trwyddedu o 2:00am i 12:00am. 2:00am yn ymddangos yn rhy hwyr.

dd) Atgoffwyd y gwrthwynebydd o'i hawl i wneud cais am adolygiad os bydd problemau sŵn.

e) Caniatawyd i'r Aelod Lleol gyflwyno sylwadau er nad oedd wedi cyflwyno sylwadau ysgrifenedig.

Mewn ymateb i'r cais nododd Aelod Lleol a oedd yn gefnogol i'r cais, y sylwadau canlynol:

- Nad oedd yn ymwybodol bod y Cyngor Tref wedi trafod y mater
- Bod llawer o bobl yn ffafriol i'r cais ac yn gyffredinol yn gefnogol iddo. Angen i Tywyn ddatblygu yn dref sydd yn ffynnu
- Y datblygiad yn gam amlwg fydd yn cynnig gwasanaeth o fudd i'r dref ac yn un fydd yn sicr o annog pobl leol i aros yn yr ardal
- Bydd hwn yn fusnes fydd o werth i'r dref ac yn ymateb i'r galw
- Bydd problemau sŵn yn debygol o gael eu hymdrin â hwy drwy ddeddfau priodol
- Nid oedd yn ymwybodol o'r gwrthwynebiadau – nid oedd unrhyw un wedi cysylltu gydag ef yn uniongyrchol.

f) Rhoddwyd cydnabyddiaeth i'r chwe llythyr arall a dderbyniwyd.

Gadawodd y partïon perthnasol y cyfarfod.

ff) Trafodwyd y cais gan aelodau'r Is Bwyllgor gan ystyried yr holl dystiolaeth a gyflwynwyd gan roddi sylw penodol i egwyddorion Deddf Trwyddedu 2003 sef

- Trosedd ac Anhrefn
- Diogelwch y Cyhoedd
- Rhwystro Niwsans Cyhoeddus
- Amddiffyn Plant rhag Niwed

Roedd yr Is-bwyllgor yn fodlon caniatáu'r drwydded yn unol â'r cais a'r pedwar amcan trwyddedu. Nid oedd sail i dystiolaeth cwynion y byddai rhoi'r drwydded yn arwain at anrhefn a niwsans, ac awgrymwyd os bydd cwynion sŵn i'r dyfodol, y dylent gael eu cyfeirio at y gwasanaeth priodol. Dymunwyd yn dda i'r ymgeisydd gyda'r fenter newydd.

**PENDERFYNWYD caniatáu y cais am drwydded eiddo yn unol ag amcanion Deddf Trwyddedu 2003 ynghyd a sicrhau bod Teledu Cylch Cyfyng o fewn yr eiddo wedi ei osod yn unol ag amodau penodol TCC.**

Adroddodd y Cyfreithiwr y byddai'r penderfyniad yn cael ei gadarnhau yn ffurfiol drwy lythyr i bawb oedd yn bresennol. Hysbysebwyd hefyd o'u hawl i apelio i'r dyfarniad o fewn 21 diwrnod i dderbyn y llythyr hwnnw.

Dechreuodd y cyfarfod am 10:45am a daeth i ben am 11:45am

# IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG 24.11.15

**Yn bresennol**: Y Cynghorwyr W. Tudor Owen (Cadeirydd), Ann Williams a Elfed Williams.

**Hefyd yn bresennol:** Sion Huws (Uwch Gyfreithiwr (Corfforaethol)), Sheryl Le Bon Jones (Rheolwr Gwarchod Y Cyhoedd) a Bethan Adams (Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu).

**Eraill yn bresennol:** Susan Roberts (Ymgeisydd), Christopher O'Neal (Asiant yr ymgeisydd), Daniel Jones a Aaron Thomas (Tystion yr ymgeisydd).

Arolygydd Brian Kearney a Mr Ian Williams (ar ran Heddlu Gogledd Cymru)

Ffion Muscroft a Gwenan M. Roberts (ar ran Iechyd yr Amgylchedd, Cyngor Gwynedd).

**1. CROESO**

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd. Cyflwynwyd y panel a'r swyddogion i bawb oedd yn bresennol.

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Datganodd Mr Christopher O'Neal (Asiant yr ymgeisydd) fuddiant personol oherwydd ei fod yn aelod o Gyngor Gwynedd.

Eglurodd yr Uwch Gyfreithiwr (Corfforaethol) ei fod yn briodol o dan y rheoliadau iddo fod yn bresennol yn y cyfarfod gan ei fod yn gweithredu hawl sydd gan y cyhoedd i fod yn bresennol ac i gyfrannu.

**3. DOGFENNAU YCHWANEGOL**

Nodwyd bod dwy ddogfen ychwanegol wedi eu cyflwyno gan yr ymgeisydd, sef llythyr safonol gan Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd a chanllawiau sŵn statudol. Cafwyd cadarnhad bod pawb yn gytûn y gellir eu cyflwyno yn y gwrandawiad.

**4. TREFN Y GWRANDAWIAD**

Manylodd y Cadeirydd ar drefn y cyfarfod gan nodi y byddai'r gwrthwynebwyr yn siarad gyntaf gan mai'r gwrthwynebiadau i'r Rhybuddion Digwyddiad Dros Dro Safonol yr ystyrir.

Ychwanegwyd yr ystyrir tystiolaeth gan y partïon perthnasol ar y 3 cais ac wedyn byddai'r partïon perthnasol yn gadael y cyfarfod er mwyn i'r Is-bwyllgor ddod i benderfyniad ar y 3 cais ar wahân.

**5. CAIS RHYBUDD DIGWYDDIAD DROS DRO SAFONOL (1)**

Cyflwynwyd adroddiad y Rheolwr Trwyddedu yn manylu ar hysbysiadau gwrthwynebu a dderbyniwyd gan Heddlu Gogledd Cymru ac Iechyd yr

Amgylchedd, Cyngor Gwynedd i Rybudd Digwyddiad Dros Dro (TEN) a dderbyniwyd ar 12 Tachwedd 2015 gan Mrs Susan Roberts mewn perthynas â chynnal gweithgareddau trwyddedig arfaethedig yn 342 Stryd Fawr, Bangor am 3 diwrnod fel a ganlyn:
27 Tachwedd 2015 o 11:00 – 03:00
28 Tachwedd 2015 o 11:00 – 03:00
29 Tachwedd 2015 o 11:00 – 23:59.

Nodwyd mai 2 opsiwn oedd ar gael i'r Is-bwyllgor, sef:

- Gwneud dim a chaniatáu i'r digwyddiad fynd yn ei flaen yn y modd a ddisgrifir yn yr hysbysiad digwyddiad dros dro; NEU
- I gyhoeddi gwrth-hysbysiad, h.y. i wrthod y digwyddiad yn unol â Rhan 105(2)(b) o'r Ddeddf Trwyddedu 2003 os yw'r is-bwyllgor yn ystyried fod angen gwneud hynny er mwyn hyrwyddo un o'r amcanion Trwyddedu.

Mewn ymateb i ymholiad gan aelod parthed y nifer o eiddo trwyddedig yn y cyffiniau oedd ar agor dan 03:00, nododd y Rheolwr Trwyddedu bod yr Academi, Mirage, Peep a Skerries ar agor hyd at yr amser yma ar ddyddiau yn amrywio rhwng dydd Gwener a dydd Sul.

Holodd asiant yr ymgeisydd pryd derbyniwyd y gwrthwynebiad gan Iechyd yr Amgylchedd. Ymatebodd y Rheolwr Trwyddedu gan nodi y derbyniwyd y gwrthwynebiad ar 17 Tachwedd 2015.

Manylodd yr Arolygydd Brian Kearney ar wrthwynebiad Heddlu Gogledd Cymru i'r TEN, nododd y prif bwyntiau canlynol:

- Y cynhaliwyd cyfarfod efo'r ymgeisydd ar 26 Hydref 2015 yng ngorsaf heddlu Bangor lle trafodwyd digwyddiadau, amseroedd, gofynion o ran diogelwch, a'r angen am deledu cylch cyfyng (TCC) oedd yn gweithredu'n llawn gan recordio ac y dylid cadw'r recordiad am 31 diwrnod. Ychwanegwyd y nodwyd y broses o ran delio ac aflonyddwch a'r angen i hysbysu'r heddlu o ddigwyddiad o'r fath. Nodwyd dymuniad yr heddlu i'r eiddo ymuno â *Pubwatch*.
- Pwysleisiwyd yn dilyn y cyfarfod roedd yr ymgeisydd yn hollol ymwybodol o'i chyfrifoldebau;
- Manylwyd ar ddigwyddiad treisgar yn yr eiddo rhwng 01:00 a 02:00 ar y 1af o Dachwedd 2015. Nodwyd na gynigwyd cymorth cyntaf na chyngor i'r dioddefwr;
- Bod y system TCC ddim wedi recordio'r digwyddiad gan nad oedd yr ymgeisydd wedi talu £9.99 ar gyfer cadw'r recordiad ar system cwmwl;
- Y gwrthwynebir y cais ar sail atal trosedd ac anrhefn ac o ran iechyd a diogelwch;
- Nodwyd bod yr ymgeisydd efo profiad o ran rhedeg clwb cymdeithasol ym Maesgeirchen, Bangor ond bod rheoli sefydliad yng nghanol y ddinas yn hollol wahanol;
- Dim ffydd yn yr ymgeisydd i adrodd ar ddigwyddiad o'r math nac ychwaith yn y system TCC i recordio.

Rhoddwyd cyfle i'r aelodau ofyn cwestiynau i'r gwrthwynebydd, mewn ymateb nododd cynrychiolydd Heddlu Gogledd Cymru:

- Nad oedd staff yr eiddo yn ymwybodol os oedd y system TCC yn gweithio a bod gofyn i rywun fod yn bresennol i lawrlwytho'r recordiad gan mai dim ond 24 awr oedd gan yr heddlu i ddal rhywun dan amheuaeth. Nid oedd ar gael

oherwydd nad oedd y system yn recordio;
- Fe dreuliwyd amser yn ceisio darganfod manylion y digwyddiad a ni siaradwyd yn uniongyrchol efo'r ymgeisydd ar ôl y digwyddiad ond fe wnaed yn glir yn y cyfarfod efo'r ymgeisydd y disgwyliadau arni;
- Bod yr atodlen a roddwyd i'r ymgeisydd yn nodi y gofyn i gadw'r recordiad TCC am gyfnod o 31 diwrnod fel isafswm;
- Nad oedd gan yr Heddlu unrhyw bryder o ran nifer y staff diogelwch a oedd yn bresennol.

Gofynnodd asiant yr ymgeisydd nifer o gwestiynau o ran cadarnhau manylion y digwyddiad i gynrychiolydd Heddlu Gogledd Cymru. Ymatebodd yr Arolygydd i'r cwestiynau.

Manylodd Gwenan M. Roberts ar wrthwynebiad Iechyd yr Amgylchedd i’r TEN ar sail atal niwsans cyhoeddus, nododd y prif bwyntiau canlynol:
- Y derbyniodd yr uned gŵyn trwy alwad ffôn ar 9 Tachwedd 2015 yng nghyswllt lefelau sŵn yr eiddo dan sylw yn ystod 30-31 Hydref a 6-7 Tachwedd;
- Bod yr eiddo yn gweithredu ar TENS i gynnal digwyddiadau ar hyn o bryd ond fe ddeallir bod cais am drwydded eiddo wedi ei gyflwyno;
- Yr anfonwyd llythyr safonol o ran sŵn i'r ymgeisydd yn rhoi gwybodaeth o ran y gŵyn ac y cynhelir ymchwiliad i'r gŵyn. Ychwanegwyd bod yr ymchwiliad yn mynd rhagddo;
- Cafwyd trafodaethau efo'r ymgeisydd a nodwyd parodrwydd yr uned i negodi o ran oriau gwahanol gan deimlir bod oriau hyd at 03:00 yn rhy hwyr. Nodwyd y byddai'r gwasanaeth yn tynnu eu gwrthwynebiad yn nol os newidir yr oriau i dan 00:00 ar 27/28 Tachwedd a tan 23:00 ar 29 Tachwedd;
- Y cysylltwyd â'r ymgeisydd ymhellach ar 20 Tachwedd lle nodwyd y byddai'r gwasanaeth yn fodlon trafod amser gorffen cerddoriaeth chwyddedig o 01:00 ar 27/28 Tachwedd a chynghorwyd y dylid cau drysau yn y man ysmygu os mai dyma oedd tarddiad y broblem sŵn;
- Yn dilyn hyn, derbyniwyd galwad ffôn gan asiant yr ymgeisydd yn nodi na fyddai negodi pellach o ran yr oriau;
- Pryder os byddai’r digwyddiadau a ofynnir amdanynt yn mynd yn eu blaen y derbynnir mwy o gwynion o ran sŵn.

Rhoddwyd cyfle i'r aelodau ofyn cwestiynau i'r gwrthwynebydd, mewn ymateb nododd cynrychiolydd Iechyd yr Amgylchedd:

- Bod 2 neu 3 adeilad preswyl yn agos i’r eiddo ac eraill yn y cyffiniau;
- ran pa mor uchel y caiff sŵn cerddoriaeth fod, ei fod yn ddibynnol ar sŵn cefndirol ac agosrwydd yr eiddo i’r eiddo a effeithir;
- Bod yr asiant yn pryderu o ran cwtogi oriau gan fod yr eiddo ddim yn derbyn cwsmeriaid dan hwyrach yn y nos. Ychwanegwyd y derbyniwyd e-bost gan yr asiant yn cynnig diwygio’r cais i nodi cerddoriaeth chwyddedig dan 02:00 ar 27/28 Tachwedd a dan 11:00 ar 29 Tachwedd. Nodwyd yn dilyn trafodaeth efo’r Heddlu eu bod yn parhau i wrthwynebu gan fod 02:00 dal yn rhy hwyr.

Gofynnodd asiant yr ymgeisydd nifer o gwestiynau o ran cadarnhau manylion y gwŷn a dderbyniwyd i gynrychiolydd Iechyd yr Amgylchedd. Ymatebodd y cynrychiolydd i'r cwestiynau.

Nododd asiant yr ymgeisydd y prif bwyntiau canlynol i gefnogir cais am TEN:

- Bod yr ymgeisydd yn gweithredu yn y maes trwyddedig ers 10 mlynedd ac mai ond 2 digwyddiad treisgar a oedd wedi cymryd lle yn ystod y cyfnod yma;
- Bod yr ymgeisydd wedi mynychu cyfarfod gyda swyddogion o Heddlu Gogledd Cymru a'i bod yn fodlon cydweithio â nhw;
- Yr ymgeisiwyd i osod TCC digidol gweithredol ond nad oedd wedi recordio oherwydd yr angen i dalu ffi yn anymwybodol i'r ymgeisydd. Nododd bod y system bellach yn gwbl weithredol;
- Bod yr ymgeisydd yn cyflogi 3 swyddog diogelwch tra mae'r canllawiau yn nodi 1 i bob 100 o bobl felly roedd hi'n mynd tu hwnt i'r gofynion;
- O ran y digwyddiad ar 1 Tachwedd 2015, nid oedd staff wedi gweld y digwyddiad ac nid oedd yr ymgeisydd yn ymwybodol ohono tan yn hwyr ar 3 Tachwedd;
- Nad oedd y dioddefwr wedi gadael i staff wybod am y digwyddiad felly ni chynigwyd cymorth cyntaf;
- O ran y cwyn sŵn, bod yr ymgeisydd yn cyflogi DJ profiadol;
- Bod nifer o eiddo trwyddedig ar agor tan 02:00 neu 03:00 a byddai gofyn i'r digwyddiad ddod i ben yn gynt yn amharu ar economi nos Bangor;
- Bod angen i Iechyd yr Amgylchedd fod yn deg a gweithio efo busnesau o'r math yma;
- Bod polisi cyffredinol ym Mangor i beidio â gadael pobl i mewn i eiddo trwyddedig ar ôl 01:00 ac roedd yr ymgeisydd yn cytuno i weithredu yn y modd yma;
- Nad oedd yn angenrheidiol i eiddo trwyddedig ymuno â *Pubwatch* ond fod yr ymgeisydd yn mynd i ymaelodi;
- Yr angen i'r heddlu a'r ymgeisydd i gyd-weithio.

Holodd asiant yr ymgeisydd ei dystion yng nghyswllt y system TCC a'r digwyddiad ar 1 Tachwedd 2015. Rhoddwyd cyfle i'r aelodau ofyn cwestiynau ac fe ymatebodd y tystion.

Rhoddwyd cyfle i asiant yr ymgeisydd holi'r ymgeisydd a nododd ei bod yn ymgeisio am TENS er mwyn cynnal digwyddiadau gan na allwyd trosglwyddo'r drwydded eiddo i'w henw gan fod cyn-berchennog y drwydded wedi mynd yn fethdalwr. Nododd y gwnaed cais am drwydded lawn ar gyfer y dyfodol.

Tynnodd y Rheolwr Trwyddedu sylw at y ffaith nad oedd y bocs darparu adloniant wedi ei reoleiddio o dan y pennawd gweithgareddau trwyddedig wedi ei dicio ar y ffurflen gais. Derbyniwyd cadarnhad gan yr ymgeisydd ei fod angen ei dicio, ac oddi wrth y gwrthwynebwyr fod eu sylwadau wedi eu paratoi ar sail fod yr ymgeisydd wedi gofyn am adloniant yn y tri chais, ac fe gytunwyd i ystyried y cais gan gynnwys yr anghenion yma.

**6. CAIS RHYBUDD DIGWYDDIAD DROS DRO SAFONOL (2)**

Cyflwynwyd adroddiad y Rheolwr Trwyddedu yn manylu ar hysbysiadau gwrthwynebu a dderbyniwyd gan Heddlu Gogledd Cymru ac Iechyd yr

Amgylchedd, Cyngor Gwynedd i Rybudd Digwyddiad Dros Dro (TEN) a dderbyniwyd ar 12 Tachwedd 2015 gan Mrs Susan Roberts mewn perthynas â chynnal gweithgareddau trwyddedig arfaethedig yn 342 Stryd Fawr, Bangor am 2 diwrnod fel a ganlyn:
18 Rhagfyr 2015 o 11:00 – 03:00
19 Rhagfyr 2015 o 11:00 – 23:59.

Nodwyd mai 2 opsiwn oedd ar gael i'r Is-bwyllgor, sef:

- Gwneud dim a chaniatáu i'r digwyddiad fynd yn ei flaen yn y modd a ddisgrifir yn yr hysbysiad digwyddiad dros dro; NEU
- I gyhoeddi gwrth-hysbysiad, h.y. i wrthod y digwyddiad yn unol â Rhan 105(2)(b) o'r Ddeddf Trwyddedu 2003 os yw'r is-bwyllgor yn ystyried fod angen gwneud hynny er mwyn hyrwyddo un o'r amcanion Trwyddedu.

Manylodd yr Arolygydd Brian Kearney ar wrthwynebiad Heddlu Gogledd Cymru i'r TEN fel y cais blaenorol gan ychwanegu er ei fod yn gwerthfawrogi bod yr ymgeisydd yn ymdrechu i weithredu yn unol â'r gofynion ei bryder nad oedd ganddi'r cefndir angenrheidiol i redeg clwb nos.

Manylodd Gwenan M. Roberts ar wrthwynebiad Iechyd yr Amgylchedd i'r TEN ar sail atal niwsans cyhoeddus fel y nodwyd o dan y cais blaenorol.

Nododd asiant yr ymgeisydd bod yr ymgeisydd yn berson addas a priodol i ddal TENS wrth ymgeisio am drwydded eiddo parhaol.

Cytunwyd i ddelio â'r cais yma fel y cais blaenorol sef bod y bocs darparu adloniant wedi ei reoleiddio o dan y pennawd gweithgareddau trwyddedig angen ei dicio ar y ffurflen gais.

## 7. CAIS RHYBUDD DIGWYDDIAD DROS DRO SAFONOL (3)

Cyflwynwyd adroddiad y Rheolwr Trwyddedu yn manylu ar hysbysiadau gwrthwynebu a dderbyniwyd gan Heddlu Gogledd Cymru ac Iechyd yr Amgylchedd, Cyngor Gwynedd i Rybudd Digwyddiad Dros Dro (TEN) a dderbyniwyd ar 12 Tachwedd 2015 gan Mrs Susan Roberts mewn perthynas â chynnal gweithgareddau trwyddedig arfaethedig yn 342 Stryd Fawr, Bangor am 3 diwrnod fel a ganlyn:
25 Rhagfyr 2015 o 11:00 – 00:00
26 Rhagfyr 2015 o 11:00 – 03:00
27 Rhagfyr 2015 o 11:00 – 23:59.

Nodwyd mai 2 opsiwn oedd ar gael i'r Is-bwyllgor, sef:

- Gwneud dim a chaniatáu i'r digwyddiad fynd yn ei flaen yn y modd a ddisgrifir yn yr hysbysiad digwyddiad dros dro; NEU
- I gyhoeddi gwrth-hysbysiad, h.y. i wrthod y digwyddiad yn unol â Rhan 105(2)(b) o'r Ddeddf Trwyddedu 2003 os yw'r is-bwyllgor yn ystyried fod angen gwneud hynny er mwyn hyrwyddo un o'r amcanion Trwyddedu.

Hysbysodd asiant yr ymgeisydd yr Is-bwyllgor y byddai'r oriau masnachu ar 25 Rhagfyr 2015 ond tan ddiwedd y prynhawn gyda defnydd o'r eiddo tan yr hwyr gan deulu a ffrindiau'r ymgeisydd.

Nododd Arolygydd Brian Kearney bod gwrthwynebiad Heddlu Gogledd Cymru i'r TEN fel y ceisiadau blaenorol.

Nododd Gwenan M. Roberts bod gwrthwynebiad Iechyd yr Amgylchedd i'r TEN ar sail atal niwsans cyhoeddus fel y nodwyd o dan y ceisiadau blaenorol. Ychwanegodd pryder y gwasanaeth o ran oriau ar 25 a 26 Rhagfyr ond ei bod yn croesawu clywed esboniad asiant yr ymgeisydd o ran 25 Rhagfyr.

**Gadawodd y partïon perthnasol y cyfarfod.**

Trafodwyd y cais gan aelodau'r Is-bwyllgor gan ystyried yr holl dystiolaeth a gyflwynwyd gan roddi sylw penodol i egwyddorion Deddf Trwyddedu 2003 sef

- Trosedd ac Anhrefn
- Diogelwch y Cyhoedd
- Rhwystro Niwsans Cyhoeddus
- Amddiffyn Plant rhag Niwed

Roedd yr Is-bwyllgor yn fodlon caniatáu i'r 3 digwyddiad fynd yn ei flaen yn y modd a ddisgrifir yn yr hysbysiadau digwyddiad dros dro yn unol â'r cais a'r pedwar amcan trwyddedu. Nodwyd fod yr Is-bwyllgor yn ymddiried y byddai'r system TCC yn weithredol.

**PENDERFYNWYD caniatáu i'r 3 digwyddiad fynd yn ei flaen yn y modd a ddisgrifir yn yr hysbysiadau digwyddiad dros dro.**

Dechreuodd y cyfarfod am 11.20yb a daeth i ben am 2.55yh

# IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG DYDD LLUN, 21 RHAGFYR 2015

**Y CYNGHORWYR:** W. Tudor Owen, Ann Williams a Elfed Williams

**SWYDDOGION:** Geraint Brython Edwards (Cyfreithiwr), Lowri Haf Evans (Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu), Sheryl Le Bon Jones (Rheolwr Systemau Gweithredol - Gwarchod y Cyhoedd), Gwenan Mai Roberts (Public Protection Manager - Environment) a Ffion Muscroft (Public Protection Officer)

## 1. YMDDIHEURIADAU

Dim i'w nodi

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Dim i'w nodi

## 3. MATERION BRYS

Dim i'w nodi

## 4. CAIS AM AMRYWIAD TRWYDDED EIDDO – THE LOUNGE, 342 STRYD FAWR, BANGOR

**Ar ran yr eiddo:** Mrs Susan Roberts (ymgeisydd), Mr Chris O'Neil (asiant)

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd, y Cynghorydd Tudor Owen. Cyflwynwyd y panel ar swyddogion i bawb oedd yn bresennol. Cyhoeddwyd bod gan bawb hyd at 10 munud i gyflwyno sylwadau uniongyrchol ar y cais.

**Adroddiad ac argymhelliad yr Adain Trwyddedu.**

a) Cyflwynwyd adroddiad y Rheolwr Trwyddedu yn manylu ar gais am drwydded eiddo ar gyfer The Lounge, 342, Stryd Fawr, Bangor gan ymhelaethu bod y cais ar gyfer lolfa a bar gyda man dawnsio. Nodwyd bod yr ymgeisydd wedi cynnwys camau priodol i hyrwyddo'r pedwar amcan trwyddedu fel rhan o'r cais. Amlygwyd bod trwydded eiddo wedi bodoli ar gyfer yr eiddo ers 2005 a daeth i ben yn Awst 2014.

Yn dilyn cyfnod ymgynghori, nodwyd nad oedd Heddlu Gogledd Cymru yn gwrthwynebu’r cais ond yn dymuno bydd teledu cylch cyfyng (TCC) sydd yn cael ei osod yn yr eiddo yn destun amodau penodol TCC. Nodwyd nad oedd Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd yn gwrthwynebu’r cais, ond yn argymhell lleihad yn oriau cerddoriaeth wedi ei recordio a byw ynghyd a chynnwys amodau safonol caeedig ar y drwydded i reoli lefelau sŵn ac atal niwsans cyhoeddus. Derbyniwyd gwrthwynebiad i’r cais gan berchennog fflatiau ffiniol oherwydd problemau sŵn a chryniad cerddoriaeth a sŵn lleisiau yn codi o’r man ysmygu tu allan. Nodwyd nad oedd gan Cyngor Dinas Bangor unrhyw wrthwynebiad i’r cais ac nad oedd y Gwasanaeth Tan wedi cynnig sylwadau.

b) Wrth ystyried y cais dilynwyd y drefn ganlynol-:

- Rhoddwyd cyfle i aelodau’r Is-bwyllgor a’r ymgeisydd ofyn cwestiynau i’r Rheolwr Trwyddedu.
- Gwahoddwyd yr ymgeisydd i ymhelaethu ar y cais
- Rhoddwyd cyfle i’r ymgynghorai gyflwyno eu sylwadau
- Gwahoddwyd deilydd y drwydded neu ei gynrychiolydd i ymateb i’r sylwadau
- Rhoddwyd cyfle i aelodau’r Is-bwyllgor ofyn cwestiynau i ddeilydd y drwydded.
- Rhoddwyd cyfle i aelodau’r Is-bwyllgor ofyn cwestiynau i’r ymgynghorai.

c) Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â sut roedd oriau y cais yn cymharu gydag oriau'r drwydded flaenorol, nodwyd mai ychydig iawn o newid oedd rhwng y ddau. Mewn ymateb i oriau agor sefydliadau cyfagos tebyg, nodwyd bod oriau cau ar benwythnos yn 3:00 y bore.

ch) Wrth ymhelaethu ar y cais nododd asiant ar ran yr ymgeisydd ei fod yn hapus gyda’r hyn oedd wedi ei gyflwyno a cadarnhaodd bod yr ymgeisydd wedi cytuno i amodau TCC Heddlu Gogledd Cymru.

Sylwadau ychwanegol o fwriad yr ymgeisydd;

- Economi nos Dinas Bangor wedi newid ac felly rhaid ymateb i’r galw, cystadlu gydag eraill i gynnal bywoliaeth.
- Bydd yr eiddo yn ymuno gyda National Pub Watch
- Sicrhau y bydd y pedwar amcan trwyddedu yn cael blaenoriaeth
- Ni fydd mynediad ar ôl 1am - argymhelliad gwirfoddol
- Argymhellion yr heddlu wedi eu gweithredu
- Bod camerâu TCC yn gwylio pob ardal o fewn yr eiddo
- Parod i gydweithio gyda’r heddlu i ddarparu gwybodaeth wedi ei recordio

Yn ychwanegol i’r sylwadau uchod, nododd yr asiant nad oedd sail i gŵyn Gwarchod y Cyhoedd a'i fod yn gwrthwynebu’r argymhellion yn gryf. Dadleuwyd nad oedd yr amodau yn deg ac nad oedd tystiolaeth gyson bod materion sŵn ar yr eiddo. O ran arwyddion atal sŵn, dadleuwyd bod hyn yn fwy na sydd ei angen.

Mewn ymateb i lythyr cwyn sŵn gan berchennog fflatiau cyfagos, dadleuwyd mai cwyn gan drydydd parti ydoedd ac felly nid oedd statws i’r llythyr. Nid oedd y tenantiaid eu hunain wedi cwyno ac felly awgrymwyd diystyru’r llythyr gan nad oedd statws iddo.

d) Mewn ymateb i'r cais nododd Gwasaneth Gwarchod y Cyhoedd, a oedd yn pryderu dros yr oriau ar gyfer y gerddoriaeth byw a recordio yr oedd yn cael eu ceisio, nodwyd y sylwadau canlynol:

- Ymarferiad statudol yw rhoi sylwadau ar gais - nid oedd gwrthwynebiad wedi ei gyflwyno gan nad oedd yr adran wedi derbyn tystiolaeth effaith sŵn
- Sylwadau perchennog fflatiau cyfagos yn cyfeirio at gwynion sŵn ac felly yn cadarnhau pryderon sŵn
- Yr amodau sŵn a gyflwynwyd yn amodau safonol ac yn cael eu cynnig ar bob trwydded sydd o fewn ardal breswyl. Hyn yn sicrhau cysondeb a thegwch i ddiwydiant economi hwyrnos Bangor.
- Nodwyd nad oedd cwyn wedi ei dderbyn ers cyfnod y drwydded dros dro, ond dadleuwyd nad oedd rhaid derbyn cwyn cyn cynnig / gosod amodau safonol. Yr amodau yn cael eu cyflwyno fel gweithrediad ataliol.

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â'r amodau safonol, nodwyd bod Mirage wedi derbyn amodau safonol.

dd) Cydnabuwyd sylwadau Heddlu Gogledd Cymru, Perchennog fflatiau cyfagos a Chyngor Dinas Bangor.

e) Cyflwynodd asiant ar ran yr ymgeisydd y casgliadau canlynol i'r cais;

- Nid oedd oriau'r eiddo yn wahanol i unrhyw eiddo tebyg ym Mangor
- Amodau gwirfoddol wedi eu hargymell
- Deall yr angen am amodau safonol ac felly barod i ystyried i, v and vi
- Dadleuwyd nad oedd cwynion sŵn wedi eu derbyn gan drigolion cyfagos, lleol i'r ardal
- Ardal ddynodedig wedi ei pharatoi ar gyfer ysmygu

f) Gadawodd y partïon perthnasol y cyfarfod.

Trafodwyd y cais gan aelodau'r Is Bwyllgor gan ystyried yr holl dystiolaeth a gyflwynwyd gan roddi sylw penodol i egwyddorion Deddf Trwyddedu 2003 sef

- Trosedd ac Anhrefn
- Diogelwch y Cyhoedd
- Rhwystro Niwsans Cyhoeddus
- Amddiffyn Plant rhag Niwed

Roedd yr Is-bwyllgor yn fodlon caniatáu'r drwydded yn unol â'r cais yn ddarostyngedig ar amodau Teledu Cylch Cyfyng Heddlu Gogledd Cymru.

**PENDERFYNWYD caniatáu y cais am drwydded eiddo, a rhoddir trwydded yn unol â'r cais ac yn ddarostyngedig i'r amodau ychwanegol canlynol:**

1. **Ni chaniateir pobl i fynd mewn i'r eiddo ar ôl 1 o'r gloch y bore (ymgorfforir hwn fel amod yn rhan M o'r Atodlen Weithredu)**

2. **Ymgorfforir i'r drwydded yr amodau safonol a argymhellwyd gan yr Heddlu parthed teledu cylch cyfyng.**

Adroddodd y Cyfreithiwr y byddai'r penderfyniad yn cael ei gadarnhau yn ffurfiol drwy lythyr i bawb oedd yn bresennol. Hysbysebwyd hefyd o'u hawl i apelio i'r dyfarniad o fewn 21 diwrnod i dderbyn y llythyr hwnnw.

Dechreuodd y cyfarfod am 1.00 y.h. a daeth i ben am 3.20 y.h.

# IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG DYDD MAWRTH, 12 IONAWR 2016

**YN BRESENNOL:**

**Y Cynghorwyr:** Annwen Hughes, Eryl Jones-Williams a Ann Williams

**SWYDDOGION:** Geraint Brython Edwards (Cyfreithiwr), Lowri Haf Evans (Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu) a Sheryl Le Bon Jones (Rheolwr Systemau Gweithredol - Gwarchod y Cyhoedd)

**1. YMDDIHEURIADAU**

Dim i'w nodi

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Dim i'w nodi

**3. MATERION BRYS**

Dim i'w nodi

**4. CAIS AM DRWYDDED EIDDO – COST CUTTER, 90 PENRHYN AVENUE, MAEGEIRCHEN, BANGOR**

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd, y Cynghorydd Eryl Jones Williams. Cyflwynwyd y panel ar swyddogion i bawb oedd yn bresennol. Cyhoeddwyd bod gan bawb hyd at 10 munud i gyflwyno sylwadau uniongyrchol ar y cais.

Ar ran yr eiddo: Mr M Shoker a Mr Williams (ymgeiswyr)

Eraill a fynychwyd: Cynghorydd Chris O'Neil (Aelod Lleol)

Adroddiad ac argymhelliad yr Adain Trwyddedu.

a) Cyflwynwyd adroddiad y Rheolwr Trwyddedu yn manylu ar gais am drwydded eiddo ar gyfer Costcutter, 90 Penrhyn Avenue, Bangor gan ymhelaethu bod y cais ar gyfer siop hwylus (convenience store) un llawr a fydd yn gwerthu alcohol i'w yfed oddi ar yr eiddo. Nodwyd bod yr ymgeisydd wedi cynnwys camau priodol i hyrwyddo'r pedwar amcan trwyddedu fel rhan o'r cais. Ategwyd bod tystysgrif eiddo clwb yn bodoli ar gyfer yr adeilad a daeth i ben Tachwedd 2015.

Yn dilyn cyfnod ymgynghori, nodwyd nad oedd sylwadau wedi eu derbyn gan Gwasanaeth Iechyd Amgylchedd, Gwasanaeth Tân ac Achub ac nid o fewn yr amser penodol gan Heddlu Gogledd Cymru. Derbyniwyd dau wrthwynebiad i'r cais gan Cyngor Dinas Bangor a'r Aelod Lleol oherwydd oriau gwerthu alcohol gormodol. Y gwrthwynebiadau yn seiliedig ar yr amcanion trwyddedu o Atal Niwsans Cyhoeddus, Trosedd ac Anhrefn, Diogelwch y Cyhoedd ac Amddiffyn

Plant rhag Niwed. Nodwyd bod yr ymgeisydd wedi bod mewn trafodaethau gyda'r heddlu ac wedi ystyried addasu oriau cau'r eiddo i 1:00am.

Wrth ystyried y cais dilynwyd y drefn ganlynol-:

- Rhoddwyd cyfle i aelodau'r Is-bwyllgor a'r ymgeisydd ofyn cwestiynau i'r Rheolwr Trwyddedu.
- Gwahoddwyd yr ymgeisydd i ymhelaethu ar y cais
- Rhoddwyd cyfle i'r ymgynghorai gyflwyno eu sylwadau
- Gwahoddwyd deilydd y drwydded neu ei gynrychiolydd i ymateb i'r sylwadau
- Rhoddwyd cyfle i aelodau'r Is-bwyllgor ofyn cwestiynau i ddeilydd y drwydded.
- Rhoddwyd cyfle i aelodau'r Is-bwyllgor ofyn cwestiynau i'r ymgynghorai.

b) Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn ag Aelod Lleol arall ward Marchog, nodwyd bod y Cynghorydd Nigel Pickavance (Aelod Marchog 2) wedi cael cyfle i gyflwyno sylwadau ond nid oedd rhai wedi eu derbyn.

c) Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn ag oriau agor siopau eraill yn yr ardal cadarnhaodd y Rheolwr Trwyddedu, bod 'The Stores' yn agor 8 - 11pm (Llun i Sadwrn) a 10 - 11pm (dydd Sul) a bod y 'Corner Shop' yn agor 8am - 8pm (Llun i Sul).

ch) Wrth ymhelaethu ar y cais nododd yr ymgeisydd ei fod yn hapus gyda'r hyn oedd wedi ei gyflwyno ac ategodd y sylwadau canlynol o'i fwriad:

- Bod y siop yn adeilad o'r newydd – buddsoddiad da i'r ardal
- Bod y siop yn cynnig gwasanaeth i drigolion lleol
- Bod caffi yn rhan o'r eiddo
- Bod ganddo berthynas dda gyda'r heddlu
- Bod bwriad gosod system Teledu Cylch Cyfyng (TCC) o'r radd flaenaf. 64 camera wedi eu hargymell - hyn yn cael ei gymeradwyo gan yr heddlu. Ategwyd y byddai cofnod yn cael ei gadw am 30 diwrnod a byddai staff yn derbyn hyfforddiant priodol (pecyn hyfforddiant yn cael ei ddarparu gan Cyngor Gwynedd)
- Bod swyddi yn cael eu creu yn lleol
- Dim yn rhagweld unrhyw broblemau - y bwriad yw rhedeg busnes proffesiynol
- Eisoes yn rhedeg busnesau llwyddiannus tebyg

d) Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â'r caffi, nodwyd nad oedd oriau agor y caffi wedi eu cadarnhau ac ni fydd alcohol yn cael i werthu yn y caffi. Ategwyd bod y caffi yn rhan o'r siop - un fynedfa sydd i'r eiddo. Y bwriad yw creu ardal o fewn y siop i oddeutu 35 o bobl fwynhau prydau ysgafn.

dd) Cydnabuwyd sylwadau Cyngor Dinas Bangor

e) Yn manteisio ar ei hawl i siarad, nododd yr Aelod Lleol (Marchog 1), Y Cynghorydd Chris O'Neal nad oedd ganddo unrhyw amheuaeth am safon y siop. Ei unig wrthwynebiad a phryder oedd bod alcohol a'r werth am 6:00 y bore.

Sylwadau a nodwyd:

- Bod yr eiddo wedi ei leoli yng nghalon y gymuned
- Bysys ysgol yn codi nifer o blant ysgol tu allan i'r eiddo felly prysurdeb amlwg yma yn y bore
- Dim eisiau gweld plant yn cymysgu gyda phobl yn prynu alcohol yn gynnar yn y dydd

- Pryder ynglŷn â gwerthu alcohol i blant dan ddeunaw
- Nid yw TCC yn atal anrhefn
- Ystâd fwyaf yn y Sir gyda phroblemau hanesyddol - dim eisiau annog problemau o'r newydd
- Cais i ystyried gwerthu alcohol o 9:00 y bore
- Nid oedd ganddo unrhyw wrthwynebiad i oriau gwerthu alcohol hwyr y nos

Gofynodd y Cynghorydd O'Neal am eglurhad oddi wrth y Cyfreithiwr am gyfreithlondeb y cais yn sgil y ffaith bod Adrannau I ac L ar y ffurflen gais heb eu cwblhau. Nododd y Cyfreithiwr nad oedd yr ymgeisydd wedi dynodi eu bod yn gwneud cais am drwydded i ddarparu lluniaeth hwyr nos felly mae'n ymddangos na fyddai angen iddynt gwblhau Adran I. Mae Adran L ar gyfer gwybodaeth yn unig ac yn dechnegol nid oedd yn hanfodol ar gyfer y cais gan nad yw oriau agor i'r cyhoedd yn weithgaredd trwyddedadwy o dan y Ddeddf Trwyddedu 2003.

f) Wrth grynhoi ei gais, nododd yr ymgeisydd bod yr adeilad yn wag ac roedd yn buddsoddi arian i'r gymuned a'r ardal leol. Nododd bod ganddo siop debyg ym Modedern ac nad oedd unrhyw broblemau yno gyda'r oriau agor.

ff) Ategodd y Rheolwr Trwyddedu bod cynllun yr adeilad newydd i bwrpas siop. Atodwyd cynllun bras o'r siop gyda'r cais a thrafodwyd y cais yn seiliedig ar y cynllun hwn. Petai unrhyw newid i gynllun y siop, eglurwyd bod rhaid cyflwyno cais am amrywiad trwydded. Cadarnhawyd bod yr Is Bwyllgor i wneud penderfyniad ar y cynllun a oedd yn rhan o'r cais.

g) Gwnaed cais i'r ymgeisydd sicrhau bod digon o finiau tu allan i'r siop i atal sbwriel

h) Gadawodd y partïon perthnasol y cyfarfod.

i) Trafodwyd y cais gan aelodau'r Is Bwyllgor gan ystyried yr holl dystiolaeth a gyflwynwyd gan roddi sylw penodol i egwyddorion Deddf Trwyddedu 2003 sef

- Trosedd ac Anhrefn
- Diogelwch y Cyhoedd
- Rhwystro Niwsans Cyhoeddus
- Amddiffyn Plant rhag Niwed

Roedd yr Is-Bwyllgor yn fodlon caniatáu'r drwydded yn unol â'r cais. Nodwyd nad oedd tystiolaeth ddigonol y byddai'r drwydded yn cyfrannu at egwyddorion Deddf Trwyddedu 2003 ac na ellid ystyried sefyllfaoedd rhagdybiaethol. Gofynnwyd i'r ymgeisydd gydweithio gyda Heddlu Gogledd Cymru a'r Gwasanaeth Tân ac Achub, a phetai problemau yn codi i'r dyfodol bydd posib gwneud cais am adolygiad.

**PENDERFYNWYD caniatáu y cais am drwydded eiddo. Rhoddir y drwydded yn unol â'r cais ond yn ddarostyngedig i'r canlynol:**

1. Un unol â chais yr ymgeisydd yn y gwrandawiad, gosodir awr terfynol o 01:00 Llun-Gwener ar gyfer darparu alcohol oddi ar yr eiddo
2. Ymgorfforir y canlynol fel amodau mewn perthynas â Theledu Cylch Cyfyng:

a. Cedwir cofnodion Teledu Cylch Cyfyng am 30 diwrnod
b. Bydd staff yn derbyn hyfforddiant priodol ar y sustem Teledu Cylch Cyfyng, yn unol a'r pecyn hyfforddiant a ddarperir gan Gyngor Gwynedd

Adroddodd y Cyfreithiwr y byddai'r penderfyniad yn cael ei gadarnhau yn ffurfiol drwy lythyr i bawb oedd yn bresennol. Hysbysebwyd hefyd  o'u hawl i apelio i'r dyfarniad o fewn 21 diwrnod i dderbyn y llythyr hwnnw.

Dechreuodd y cyfarfod am 2:30pm a daeth i ben am 3:30pm

# IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG 29.01.16

**Yn bresennol**: Cyng. Tudor Owen , Cyng. Ann Williams a Cyng.Angela Russell

**Hefyd yn bresennol:** Geraint Brython Edwards (Cyfreithiwr), Sheryl Le Bon Jones (Rheolwr Trwyddedu) a Lowri H Evans (Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu)

**1. CROESO**

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd, y Cynghorydd Tudor Owen. Cyflwynwyd y panel a'r swyddogion i bawb oedd yn bresennol. Cyhoeddwyd bod gan bawb hyd at 10 munud i gyflwyno sylwadau uniongyrchol ar y cais.

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Dim i'w nodi.

**3. MATERION BRYS**

Amlygodd y Cadeirydd bod cais wedi dod i law gan yr ymgeisydd yn eitem 4 isod i gyflwyno tystiolaeth fideo yn ystod y gwrandawiad. Amlygodd y Cyfreithiwr, o dan yr amgylchiadau bydd rheoliad 18 o'r Rheoliadau Deddf Trwyddedu 2003 (Gwrandawiadau) 2005 yn berthnasol. Gan fod yr ymgeisydd yn cyflwyno tystiolaeth hwyr bydd angen i bob parti yn bresennol y gwrandawiad roi caniatâd i'r ymgeisydd i ddangos y clip. Os byddai un parti yn gwrthwynebu ni fydd modd i'r Is-bwyllgor ystyried y fideo.

Gadawodd yr Is-bwyllgor yr ystafell a chafodd y partïon gyfle i wylio cynnwys y fideo.

Pan ddychwelodd yr Is-bwyllgor i'r ystafell cadarnhaodd y partïon nad oedd ganddynt wrthwynebiad i'r fideo yn cael ei gyflwyno fel tystiolaeth.

**4. CAIS AM DRWYDDED EIDDO – UNIVERSITY PLAICE, 21 FFORDD CAERGYBI, BANGOR, GWYNEDD LL57 2EU**

**Ar ran yr eiddo:** Mr Mehemet Ali Usal a Ms Nia Haf Davies (ymgeiswyr)

**Eraill a fynychwyd:** Cynghorydd June Marshall (Aelod Lleol), Cynghorydd Dinas John Martin, Mrs A Davies (Preswylydd Lleol)

**Ymddiheuriadau:** Cynghorydd Mair Rowlands (Aelod Lleol)

**Adroddiad ac argymhelliad yr Adain Trwyddedu.**

a) Cyflwynwyd adroddiad y Rheolwr Trwyddedu yn manylu ar gais i amrywio trwydded eiddo ar gyfer University Plaice, 21 Ffordd Gaergybi, Bangor. Lleolwyd yr eiddo ymysg rhes o fusnesau a siopau ym Mangor Uchaf, ac fe ddarparir lluniaeth hwyr y nos i'w fwyta oddi ar yr eiddo. Natur yr amrywiad arfaethedig oedd ymestyn oriau agor y busnes a'r oriau darparu lluniaeth hwyr y nos ar ddydd Llun, Mawrth, Mercher a Sul i 03:00 y bore. Nodwyd bod yr ymgeisydd wedi cynnwys camau priodol i hyrwyddo'r pedwar amcan trwyddedu fel rhan o'r cais.

Amlygwyd bod yr ymgeisydd wedi cyflwyno sawl cais i ymestyn oriau trwyddedig yr eiddo yn y gorffennol. Nodwyd bod yr Is Bwyllgor yn Hydref 2013, wedi caniatáu iddynt ymestyn oriau agor y busnes ar nos Wener a Sadwrn i 03:30 y bore ac yn Medi 2014, rhoddwyd caniatâd iddynt ymestyn oriau agor y busnes ar nos Iau i 3:00 y bore. Nodwyd bod oriau arfaethedig y cais wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

Yn dilyn cyfnod ymgynghori, nodwyd nad oedd gan y Gwasanaeth Tân ac Achub wrthwynebiad i'r cais ac ni dderbyniwyd sylwadau gan Heddlu Gogledd Cymru a Gwasaneth Iechyd yr Amgylchedd. Derbyniwyd dau wrthwynebiad i'r cais gan yr Aelodau Lleol yn seiliedig ar yr amcanion trwyddedu o atal niwsans cyhoeddus a throsedd ac anrhefn. Ychwanegwyd nad oedd gan Cyngor Dinas Bangor wrthwynebiad i egwyddor y cais , ond bod awgrym i'r oriau agor fod yn gyson â sefydliadau eraill tebyg.

Wrth ystyried y cais dilynwyd y drefn ganlynol-:

- Rhoddwyd cyfle i aelodau'r Is-bwyllgor a'r ymgeisydd ofyn cwestiynau i'r Rheolwr Trwyddedu.
- Gwahoddwyd yr ymgeisydd i ymhelaethu ar y cais
- Rhoddwyd cyfle i'r ymgynghorai gyflwyno eu sylwadau
- Gwahoddwyd deilydd y drwydded neu ei gynrychiolydd i ymateb i'r sylwadau
- Rhoddwyd cyfle i aelodau'r Is-bwyllgor ofyn cwestiynau i ddeilydd y drwydded.
- Rhoddwyd cyfle i aelodau'r Is-bwyllgor ofyn cwestiynau i'r ymgynghorai.

b) Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn ag oriau agor sefydliadau eraill yn yr ardal cadarnhaodd y Rheolwr Trwyddedu, bod Late Stop, Pizza House, Bella House a Craperie yn gymysg o oriau gwahanol ar ddyddiau gwahanol, yn amrywio o 2:30am i 3:30am.

c) Wrth ymhelaethu ar y cais nododd yr ymgeisydd ei fod yn hapus gyda'r hyn oedd wedi ei gyflwyno ac ategodd y sylwadau canlynol o'i fwriad:

- Bod y fideo wedi profi bod pobl o gwmpas Bangor Uchaf yn ystod oriau man y bore yn chwilio am fwyd
- Un sefydliad sydd ar agor ar hyn o bryd - buasai caniatáu y cais yn cynnig dewis i bobl a hefyd yn gwasgaru torfeydd
- Nid oedd galwad wedi bod i'r Heddlu ers 2010. Perthynas dda gyda'r heddlu - cydweithio da i ddarparu gwybodaeth / tystiolaeth Teledu Cylch Cyfyng
- Bydd goruchwylwyr drysau ar gael ar ddydd Gwener a Sadwrn

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â phreswylwyr cyfagos, nodwyd bod trigolion yn preswylio yn Britannia Square sydd wedi ei leoli tu cefn i'r adeilad.

ch) Yn manteisio ar ei hawl i siarad, nododd Aelod o Gyngor Dins Bangor y sylwadau canlynol:

- Dylai'r oriau fod yn gyson gyda sefydliadau eraill i sicrhau tegwch
- Rhaid osgoi gosod cynsail
- Rhaid gosod terfyn amser

d) Yn manteisio ar ei hawl i siarad, nododd yr Aelod Lleol (Menai Bangor 1), Y Cynghorydd June Marshall y sylwadau canlynol:

- Bod y fideo yn profi nad yw'r sŵn yn isafol
- Rhaid sicrhau cysondeb oriau
- Siomedig nad oedd yr heddlu wedi cyflwyno sylwadau. Cyfeiriodd at ddatganiad a wnaed gan yr Heddlu yn 2013 a oedd yn nodi nad oedd angen i un sefydliad reoli'r farchnad
- Bangor Uchaf yn ardal breswyl

- Pobl fregus ac oedrannus yn byw yn Britannia Square. Annheg eu bod yn gorfod ymdopi â phroblemau sŵn
- Bydd damwain yn siŵr o ddigwydd gyda phobl ar y stryd

Mewn ymateb i gwestiwn nododd yr aelod nad oedd wedi derbyn unrhyw gwynion yn benodol i'r eiddo dan sylw, ond cwynion cyffredinol yn ymwneud a sŵn, potiau planhigion yn cael eu dwyn a tharo drysau ar Ffordd y Coleg. Nid oedd ganddi unrhyw wrthwynebiad at yr ymgeisydd dim ond pryder ynglŷn ag oriau agor estynedig a'r sŵn fuasai yn debygol o aflonyddu'r cymdogion. Atgoffwyd yr Is Bwyllgor bod myfyrwyr hefyd yn byw ym Mangor Uchaf sydd angen llonyddwch. Ategwyd bod y problemau yn codi yn ystod y tymor addysg - rhaid sicrhau cyfaddawd.

Nododd hefyd ei siom nad oedd yr Heddlu yn bresennol.
Derbyniwyd y sylw.

dd) Yn manteisio ar ei hawl i siarad, nododd Mrs A Davies, preswylydd lleol y sylwadau canlynol:

- Yn breswylydd lleol ac yn aelod o Gymdeithas Gwarchod Bangor Uchaf
- Dyletswydd i warchod y gymdogaeth a gwarchod trigolion lleol rhag trosedd
- Angen rheoli niwsans sŵn a niwsans cyhoeddus
- Rhaid sicrhau bod y palmentydd yn lân
- Rhaid sicrhau bod gan staff sydd yn gweini bwyd dystysgrif briodol
- Rhaid ceisio cymuned iach

e) Cydnabuwyd sylwadau Aelod Lleol (Menai Bangor 2) y Cynghorydd Mair Rowlands a oedd yn gwrthwynebu'r cais ar sail niwsans cyhoeddus, trosedd ac anrhefn ac ymddygiad gwrthgymdeithasol

f) Cydnabuwyd sylwadau'r Gwasanaeth Tân - nid oedd ganddynt wrthwynebiad i'r cais

ff) Wrth grynhoi ei gais, nododd yr ymgeisydd ei fod yn ddyn busnes ac eisiau cymryd mantais o'r sefyllfa. Nododd bod rhaid cydnabod bod Bangor yn ddinas brysur a bod hawl gan fyfyrwyr fod yn annibynnol. Petai y cais yn cael ei gymeradwyo byddai'r torfeydd yn clirio yn gynt - rhaid ystyried cau'r clybiau nos yn gynt ac nid y llefydd bwyd.

Gadawodd y partïon perthnasol y cyfarfod.

Trafodwyd y cais gan aelodau'r Is Bwyllgor gan ystyried yr holl dystiolaeth a gyflwynwyd gan roddi sylw penodol i egwyddorion Deddf Trwyddedu 2003 sef

- Trosedd ac Anhrefn
- Diogelwch y Cyhoedd
- Rhwystro Niwsans Cyhoeddus
- Amddiffyn Plant rhag Niwed

**PENDERFYNWYD caniatáu y cais i wyro'r drwydded eiddo. Gwyrwyd y drwydded yn unol â'r cais, i ddarparu lluniaeth hwyr yn nos rhwng 23:00 a 03:00 ddydd Sul tan ddydd Mercher, am y rhesymau canlynol:**

1. **Wrth gyrraedd y penderfyniad, ystyriwyd sylwadau perthnasol y partïon. Yn unol â'r Ddeddf Trwyddedu 2003, rhaid i'r Is Bwyllgor wneud penderfyniad ar sail sylwadau sydd yn berthnasol i un neu fwy o'r amcanion trwyddedu, a dim arall.**
2. **Wrth ystyried sylwadau'r Cynghorydd Marshall ac Arfona Davies am bryderon sŵn ym Mangor Uchaf, mae'r pwysau y gellid ei roi i'r sylwadau yn gyfyngedig iawn, gan nad oedd tystiolaeth ddigonol wedi ei dderbyn bod unrhyw broblem**

**swn y gellid ei briodoli i'r eiddo sydd yn destun y cais. Nid oedd tystiolaeth o broblem sy'n gyfystyr â niwsans cyhoeddus.**

3. **Yn yr un modd, roedd yr Is Bwyllgor wedi ystyried sylwadau'r Cynghorydd Rowlands parthed niwsans cyhoeddus a throsedd ac anhrefn. Yn anffodus, fodd bynnag, nid oedd yr aelod wedi cyflwyno tystiolaeth o'r digwyddiadau o'r fath y gellid eu priodoli i'r eiddo. Oherwydd hyn ychydig iawn o bwysau y gellid ei rhoi i sylwadau'r aelod.**
4. **Diystyriwyd sylwadau Cyngor Dinas Bangor a'r Cynghorydd Marshall yn galw am gysondeb gydag oriau eiddo eraill. Nid cysondeb gydag oriau eiddo eraill yw'r prawf perthnasol o dan y Ddeddf, ond a yw'r cais yn cyd-fynd â'r amcanion trwyddedu?**
5. **Ar sail diffyg tystiolaeth o broblemau ynghlwm â'r eiddo sydd yn tanseilio'r amcanion, roedd yr Is Bwyllgor yn fodlon bod y cais am estyniad amser yn briodol er mwyn hyrwyddo'r amcanion trwyddedu.**

Adroddodd y Cyfreithiwr y byddai'r penderfyniad yn cael ei gadarnhau yn ffurfiol drwy lythyr i bawb oedd yn bresennol. Hysbysebwyd hefyd o'u hawl i apelio i'r dyfarniad o fewn 21 diwrnod i dderbyn y llythyr hwnnw.

Dechreuodd y cyfarfod am 10:00am a daeth i ben am 11:50am